# Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio

Gweithdrefn 08: 2023 Fersiwn 1.0
Mewn grym o: 12 Ebrill 2023

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 12 Ebrill 2023 | 2021 Fersiwn 01 | Diweddariad i gynnwys cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, neu noddwyr. |
| 1 Hydref 2021 | 2018 Fersiwn 2.4 | Diweddaru teitlau swyddi ac adrannau yn sgil yr ailstrwythuro. Mae Cam 3 bellach yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaethau Llywodraethu. Mae’r Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion bellach wedi'u cynnwys mewn Paneli. |
| 1 Chwefror 2021 | 2018 Fersiwn 2.3 | Mân newidiadau i amserlenni. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 6 Hydref 2022. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: O dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo’n briodol.

# Addasrwydd i Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut gellir mynegi a rheoli pryderon am iechyd a lles myfyriwr, ac yn rhoi am y gellirei chynnig i'r myfyriwr.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â myfyrwyr sy'n achosi pryder sylweddol, a/neu sy'n peri risg o niwed iddynt eu hunain neu i eraill. Gall y Brifysgol ohirio astudiaethau myfyrwyr oherwydd afiechyd fel y diffinnir hynny gan y Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer yr holl Fyfyrwyr.
2. **Ni chaniateir defnyddio'r** weithdrefn hon i ohirio astudiaethau myfyrwyr o dan y categorïau canlynol[1]:
    - Absenoldebau byr a gymeradwywyd (e.e. salwch tymor byr). Dylid trin achosion felly fel absenoldebau awdurdodedig gan ragdybio bod myfyrwyr yn gallu parhau gyda gwaith cefndir, yn gallu mynd at adnoddau electronig ac y gellir cymeradwyo estyniadau priodol ar gyfer gwaith cwrs.
    - Sefyllfaoedd y gellir mynd i'r afael â hwy trwy weithdrefnau ysgolion ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau lliniarol.
    - Estyniadau i gyfnodau cofrestru. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â gweithdrefnau ymestyn cyfnod astudio.
    - Achosion disgyblu. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan Reoliad 21: Disgyblu Myfyrwyr
    - Achosion yn ymwneud â chamymddwyn academaidd. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
    - Gohirio astudiaethau'n wirfoddol ar sail iechyd ac am resymau eraill. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau.
    - Terfynu astudiaethau ar sail ymrwymiad neu ymgysylltiad â rhaglen academaidd. Ystyrir achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Terfynu Astudiaethau.
    - Myfyrwyr sydd mewn dyled. Dylid ystyried achosion o'r fath yn unol â'r gweithdrefnau i ymdrin â dyledwyr.
    - Cynnydd academaidd sy'n cael ei ystyried gan Fyrddau Arholi yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau a ddiffinnir gan y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig a'r Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil ôl-radd.
    - Myfyrwyr y gall eu hastudiaethau gael eu gohirio neu eu terfynu gan weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses gymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, neu gan noddwyr.

[1] Gellir gweld yr holl Reoliadau a enwir yn yr adran hon yn https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy

3. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i ymateb yn briodol pan fo pryderon sylweddol yn ymwneud ag iechyd a lles myfyriwr, a'r effaith a gaiff ar yr unigolyn a/neu aelodau eraill o'r Brifysgol.
4. Dylid ystyried myfyrwyr sy'n cael anawsterau o safbwynt cefnogol, lle bo'n bosib. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at fyfyrwyr sydd â salwch corfforol neu feddyliol.
5. Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael pan fo iechyd a lles myfyriwr yn dirywio i'r pwynt lle nad ydynt efallai'n addas i astudio, gan gynnwys pan allent fod mewn perygl o wneud niwed iddynt eu hunain a/neu i bobl eraill. Mae wedi ei chynllunio i sicrhau dull cyson a sensitif o reoli sefyllfaoedd.
6. Gall staff neu fyfyrwyr godi pryderon am les a iechyd myfyriwr, a dylai staff ddefnyddio'r ddogfen hon mewn unrhyw sefyllfa pan fo amheuaeth ynghylch lles myfyriwr. Ni ddisgwylir i fyfyrwyr reoli sefyllfaoedd o'r fath a dylent bob amser gysylltu ag aelod staff, neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr.
7. Disgwylir i staff reoli sefyllfaoedd os byddant yn teimlo'n hyderus i wneud hynny o fewn cyfyngiadau eu swydd broffesiynol a dylent ymgynghori â'r Gwasanaethau Myfyrwyr os ydynt yn teimlo na allant ddelio â sefyllfa, neu fod angen cyngor neu arweiniad arnynt ar y ffordd orau o ymdrin â myfyriwr (www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr).
8. Mae cyfrifoldebau ychwanegol gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau lle mae angen lleoliad proffesiynol ymarferol (yn cynnwys iechyd, gwaith cymdeithasol ac addysg), nid yn unig o ran eu hymddygiad ond hefyd o ran eu haddasrwydd proffesiynol, fel yr amlinellir yng nghodau ymarfer y cyrff rheoleiddiol a/neu broffesiynol perthnasol. Dylid edrych yn llawn arnynt cyn defnyddio'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio.
9. Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn mewn argyfwng, er enghraifft pan fo myfyriwr yn bygwth niweidio ei hun, neu wedi anafu ei hun, neu wedi cael ei anafu. Mewn achos o’r fath, dylid galw'r gwasanaethau brys fel rheol.

**Canllawiau**

10. Diben y weithdrefn hon yw cefnogi myfyrwyr a staff wrth reoli sefyllfaoedd a digwyddiadau sy'n achosi pryder mawr. Mae tair lefel i'r weithdrefn, yn seiliedig ar y risg a welir i iechyd, diogelwch a lles meddyliol y myfyriwr neu eraill, ac ar ymateb y myfyriwr i unrhyw ymyriad. Gall yr achos pryder arwain at y canlynol:
    - defnyddio'r weithdrefn ar unrhyw un o'r tair lefel
    - aros ar un lefel, neu
    - symud ymlaen trwy'r lefelau, pe na bai'r achos pryder yn cael ei wella wrth ddilyn y camau gweithredu a argymhellwyd ac y cytunwyd arnynt.
11. Gall pryderon ynglŷn ag iechyd neu les myfyriwr gael eu hysgogi gan:
    - hwyliau ansad neu ymddygiad anarferol (e.e. bod yn ymosodol, yn fewnblyg, yn obsesiynol, yn rhy fyrlymus neu lawen, yn drallodus, yn bigog);
    - absenoldeb neu ddiffyg ymroddiad sylweddol;
    - dirywiad sydyn mewn perfformiad academaidd neu gymhelliad;

- newid mewn ymddangosiad neu arwyddion amlwg o salwch (e.e. colli neu ennill llawer o bwysau, diffyg glanweithdra a gofal personol parhaus);
- ymddygiad amhriodol (e.e. cyffwrdd yn amhriodol, mynd yn rhy agos at bobl, chwerthin neu barablu'n ormodol, yn annisgwyl ac am gyfnodau hir, iaith anweddus annodweddiadol megis rhegi);
- tynnu'n ôl o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon yr oeddent yn eu hystyried yn bwysig ar un adeg;
- syrthni neu arwyddion o ddiffyg cwsg, neu ddryswch anarferol;
- arwyddion amlwg o gamddefnyddio sylweddau/alcohol;
- gwybodaeth am achosion penodol (e.e. meddwl am hunan-niweidio/hunanladdiad neu ymgais i wneud hynny);
- newidiadau mewn ymddygiad sy'n golygu bod defnydd y myfyriwr o offer yn beryglus iddo/iddi ei hun a/neu i bobl eraill.

12. Mae cyfathrebu’n hollbwysig wrth asesu lefel y risg i iechyd a lles myfyriwr. Gall argymell ffynonellau cefnogaeth ac ymyrryd yn gynnar pan fo problemau rwystro sefyllfaoedd argyfyngus rhag digwydd. Os yw staff yn teimlo nad ydynt yn ddigon hyderus i ddelio â sefyllfa neu'n teimlo'n ansicr a ddylid rhoi'r weithdrefn hon ar waith, fe'u hanogir i ofyn am gyngor gan gynghorydd iechyd meddwl, neu gan Bennaeth y Tîm Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai).
13. I sicrhau cyfrinachedd priodol, dylid gofyn am y cyngor hwn heb ddatgelu manylion am y myfyriwr dan sylw, e.e. ar sail ddienw.
14. Dylai myfyrwyr fod yn gysylltiedig â rheoli eu lles eu hunain lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau lle nad yw myfyriwr yn fodlon neu ddim yn gallu gweithio o fewn y gweithdrefnau hyn. Yn yr achosion hynny, dylid parhau gyda'r broses, tynnu sylw at bryderon, gofyn am gyngor a gweithredu fel y bo'n briodol.
15. Os bydd myfyrwyr yn dewis gohirio eu hastudiaethau, bydd yr ymchwiliad Addasrwydd i Astudio yn ailddechrau cyn i'r myfyrwyr ddychwelyd i astudio.

**Cam 1 o'r broses - Pryderon dechreuol neu bryderon sy'n dod i'r amlwg**

16. Defnyddir Cam 1 os oes pryderon dechreuol neu bryderon sy'n dod i'r amlwg am iechyd, diogelwch neu les meddyliol myfyriwr.
17. Os yw myfyriwr yn pryderu am gyd-fyfyriwr, dylent drafod eu pryderon gydag un o aelodau staff y Brifysgol y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus â nhw. Gall fod yn diwtor, uwch diwtor, mentor neu uwch warden y neuadd, gweinyddwr yr ysgol, swyddog neu aelod o staff Undeb y Myfyrwyr. Ni ddisgwylir i'r myfyriwr ddelio â'r sefyllfa ei hun ac ar ôl trafod y mater gydag aelod staff, bydd yr unigolyn hwnnw'n naill ai’n cyfeirio'r mater mewn modd priodol neu'n ymdrin â'r mater ei hun.
18. Os nodwyd pryderon gan aelod staff, yna dylai'r aelod staff neu aelod arall gyda chyfrifoldeb sylfaenol a/neu wybodaeth am y myfyriwr (naill ai staff academaidd neu aelod o staff y gwasanaethau proffesiynol) siarad â'r myfyriwr gyda chydymdeimlad a dealltwriaeth, a nodi bod pryderon am addasrwydd y myfyriwr i astudio, a gofrestrwyd trwy ddefnyddio’r weithdrefn hon. Gall staff gysylltu â chynghorydd iechyd meddwl, neu â Phennaeth y Tîm Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) i drafod a yw defnyddio'r weithdrefn hon yn briodol.

19. Wrth ddechrau Cam 1 dylid nodi natur y pryderon yn glir, a dylid annog y myfyriwr i drafod yr ystyriaethau, yn cynnwys yr effaith bosibl arno/arni ei hun ac eraill. Dylid ei gwneud yn glir i'r myfyriwr, er bod gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i gefnogi myfyrwyr gyda salwch, mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw bod yn addas i astudio. Dylid darparu gwybodaeth am ffynonellau cefnogaeth broffesiynol yn y Brifysgol y gall y myfyriwr eu defnyddio (e.e. y Tîm Cefnogi Myfyrwyr, y Gwasanaeth Cwnsela, y Gwasanaeth Anabledd, meddyg teulu'r myfyriwr).

20. Dylai'r myfyriwr a’r aelod staff gytuno ar ddyddiad i gyfarfod o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny’n ymarferol, i adolygu'r sefyllfa (a elwir yn gyfarfod adolygu Cam 1), a thrafod effeithiolrwydd y gefnogaeth y mae'r myfyriwr wedi ei chael. Dylai'r pwyntiau allweddol a'r cytundebau, yn cynnwys y camau gweithredu sy'n codi o'r drafodaeth hon, gael eu cofnodi a'u hegluro i'r myfyriwr (Atodiad 1). Rhaid anfon copi o'r ffurflen at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith, lle bo hynny’n ymarferol. Dylid cadw copi o'r wybodaeth hon ar ffeil y myfyriwr am gyfnod cytunedig. Dylid rhoi sicrwydd i'r myfyriwr mai pwrpas cadw’r wybodaeth ar ffeil yw sicrhau bod y Brifysgol yn darparu'r holl gefnogaeth angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn parhau'n addas i astudio. Dylid anfon copi o'r ffurflen hefyd at y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) at ddibenion monitro a chofnodi.

21. Dylid rhoi gwybod i'r myfyrwyr os bydd y pryderon yn parhau, os bydd unrhyw bryderon eraill yn codi, neu os byddant yn gwrthod neu'n methu â chymryd rhan yn y broses, y gallai hynny arwain at roi ystyriaeth bellach i'w haddasrwydd i astudio trwy symud i Gam 2.

22. Mae’n bwysig cysylltu â'r myfyriwr fwy nag unwaith yn ystod Cam 1. Os na cheir ymateb i'r cysylltiad neu os bydd lefel y pryder yn cynyddu, dylai'r aelod staff ofyn am gyngor y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai). Gall hyn hefyd gynnwys penderfyniad i symud ymlaen i gam 2.

**Cam 2 o'r broses - Pryderon parhaus a/neu sylweddol**

23. Defnyddir Cam 2 os oes pryderon parhaol neu sylweddol am iechyd, diogelwch neu les meddyliol myfyriwr.

24. Gweithredir Cam 2 gan y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai), a fydd yn cydweithio gyda staff eraill yn y Gwasanaethau Myfyrwyr a staff yn yr ysgol. Gwneir y penderfyniad terfynol ynglŷn â dilyn Cam 2 y weithdrefn neu beidio gan y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) ar ôl derbyn gwybodaeth gan aelodau staff perthnasol eraill.

25. Gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) i drafod y materion, gyda'r aelod staff a gododd y mater yn bresennol, os yw'n briodol. Rhoddir gwybod i'r myfyriwr bod dilyn Cam 2 o'r weithdrefn yn orfodol a gall gwrthod â chymryd rhan arwain at symud ymlaen i Gam 3.

26. Diben y cyfarfod fydd canfod beth yw barn y myfyriwr am y materion a nodwyd, yn cynnwys yr effaith mae salwch a/neu ymddygiad yn eu cael ar y myfyriwr a/neu aelodau o'r Brifysgol.

27. Dylid hysbysu’r myfyriwr am ddiben y cyfarfod a chael gwybod pa ddogfennau y bydd eu hangen yn y cyfarfod. Gall y myfyriwr ddod â rhywun gyda nhw i'r cyfarfod

hwn, er enghraifft gall fod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff y Brifysgol mewn rôl gefnogol, neu

aelod agos o'r teulu. Gall myfyrwyr anabl hefyd ddod â gweithiwr cefnogi gyda nhw (e.e. dehonglydd iaith arwyddion neu weithiwr iechyd meddwl). Yn ystod y cyfarfod bydd cynllun gweithredu a gytunir gan bawb yn cael ei lunio er mwyn sefydlu cefnogaeth i'r myfyriwr a chytuno'n ffurfiol ar ddisgwyliadau y dylai'r myfyriwr eu dilyn. Bydd gan y cynllun gweithredu hwn ddyddiad adolygu penodol, a rhaid egluro i'r myfyriwr beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y cynllun gweithredu cytunedig. Gall gynnwys symud at Gam 3 y weithdrefn, lle gellir ystyried gohirio astudiaethau.

28. Os na ellir cytuno ar gynllun gweithredu yn ystod Cam 2, mae'n rhaid i'r achos symud ymlaen i Gam 3.

29. Bydd adroddiad am y cyfarfod a'r canlyniadau'n cael eu cofnodi gan y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) neu Bennaeth Gwasanaeth priodol. Rhoddir copi o'r cynllun gweithredu cytunedig i'r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) ac Uwch Diwtor y myfyriwr yn yr ysgol. Bydd yr Uwch Diwtor yn ei rannu â staff perthnasol yn yr Ysgol fel y bo'n briodol.

30. Dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr os na chedwir at y cynllun gweithredu neu os oes pryderon ychwanegol yn codi, y gall hynny arwain at roi ystyriaeth bellach i'w haddasrwydd i astudio trwy symud i Gam 3.

**Cam 3 o'r broses - Pryderon difrifol neu gyson**

31. Defnyddir Cam 3 os codir pryderon difrifol neu gyson am weithredoedd neu ymddygiad myfyriwr unigol sy'n achosi risg sylweddol i iechyd, diogelwch a lles y myfyriwr ei hun neu aelodau eraill o gymuned y Brifysgol.

32. Mewn achosion o'r fath bydd y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) yn cysylltu â'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu (neu enwebai) i drafod yr achos. Os penderfynir symud ymlaen i Gam 3 yna bydd y broses ganlynol yn berthnasol:

33. Bydd y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu neu enwebai yn trefnu Panel Addasrwydd i Astudio i drafod y sefyllfa.

34. Byddai'r rhai sy'n bresennol yng nghyfarfod y Panel fel rheol yn cynnwys:

- Y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor [Cadeirydd]
- Cyfarwyddwr Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr neu gynrychiolydd enwebedig
- Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai)
- Cynrychiolydd neu gynrychiolwyr perthnasol academaidd/o'r ysgol
- Cynrychiolwyr priodol o'r timau Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai)
- Aelodau priodol y Gwasanaethau Campws ac Ystadau (gan gynnwys Swyddfa'r Neuaddau lle bo hynny'n berthnasol)
- Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu

- Cynrychiolydd meddygol priodol lle bo’n berthnasol, ac ar argymhelliad y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai)
- Uwch Swyddog Cwynion ac Ymddygiad Myfyrwyr (Ysgrifennydd)

35. Bydd cyfarfod y Panel Addasrwydd i Astudio yn penderfynu ar gam gweithredu cytunedig a fydd yn un o'r canlynol fel rheol:
    - Cynllun Gweithredu manylach i gefnogi'r myfyriwr, dan oruchwyliaeth y Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai); neu Student Support & Well-being (or their nominee); or
    - argymhelliad o’r posibilrwydd i ohirio astudiaethau ar sail iechyd a lles, i'w gymeradwyo gan y Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddod i ben.

36. Os bydd y Panel Addasrwydd i Astudio yn argymell cynllun gweithredu manylach, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) i dderbyn a thrafod y camau a argymhellir. Gwahoddir y myfyriwr i ddod ag unigolyn gyda nhw i'w cefnogi yn y cyfarfod. Bydd gan y cynllun ddyddiad adolygu penodol, ac eglurir beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y Cynllun Gweithredu. Bydd copi o'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno’n cael ei gyflwyno i staff perthnasol o fewn y Tîm Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr, staff perthnasol o fewn y Gwasanaethau Proffesiynol eraill (e.e. Swyddfa’r Neuaddau) ac i'r Uwch Diwtor.

37. Os yw'r weithred a argymhellwyd ac y cytunwyd arni yn golygu gohirio astudiaethau, bydd y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu (neu enwebai) yn hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig. Mewn rhai achosion, efallai bydd angen hysbysu'r myfyriwr ar lafar yn dweud bod eu hastudiaethau’n cael eu gohirio ar unwaith ac y bydd llythyr ffurfiol yn dilyn.

38. Dim ond mewn achosion difrifol iawn yr argymhellir gohirio astudiaethau, a phan fo pob dull cefnogi wedi'u defnyddio, pan na fydd y myfyriwr yn fodlon gohirio ei astudiaethau'n wirfoddol, neu pan nad yw’r myfyriwr wedi ymgysylltu â'r gefnogaeth gytunedig. Bwriedir i’r gohirio astudiaethau roi cyfle i’r myfyriwr gael amser i ffwrdd oddi wrth ei astudiaethau i roi sylw i broblemau iechyd a lles fel eu bod, lle bynnag y bo modd, yn dychwelyd i’r Brifysgol ac yn ailddechrau astudio.

## Ailafael mewn astudiaethau

39. Ni fydd penderfyniad y Brifysgol i ohirio astudiaethau myfyriwr yn cael ei wyrdroi nes bod y myfyriwr wedi darparu, i’r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai), dystiolaeth feddygol a/neu dystiolaeth berthnasol arall gan weithiwr meddygol neu weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn dweud eu bod o’r farn bod y myfyriwr yn addas i ddychwelyd i astudio. Gall y Brifysgol ofyn i’r gweithiwr proffesiynol meddygol am atebion i gwestiynau penodol neu ofyn iddynt ystyried materion penodol, ac ni wneir penderfyniad i adael i'r myfyriwr ddychwelyd i astudio hyd nes bod y myfyriwr yn addas i ddychwelyd i amgylchedd y Brifysgol. Gall y Brifysgol hefyd ofyn i'r myfyriwr gael cyfweliad gyda staff perthnasol i benderfynu ar addasrwydd y myfyriwr i astudio.

40. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i ganiatáu i’r myfyriwr barhau gyda'i astudiaethau, o fewn y cyfyngiadau a osodir gan reoliadau'r Brifysgol. Gall hyn gynnwys ail-wneud cyfnodau astudio. Bydd y gallu i ail-wneud neu ddychwelyd i

astudio yn dibynnu ar ba mor ddichonadwy a rhesymol yw cynnig o'r fath, a phenderfynir ar bob achos yn unigol.

**Y Drefn Apelio**

41. Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniad y Panel Addasrwydd i Astudio (fel y nodir ym mharagraff 37) i'r Is-ganghellor. Rhaid cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbysir y myfyriwr am benderfyniad y Brifysgol.

42. Ystyrir apeliadau am y rhesymau canlynol yn unig:

- Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y Panel Addasrwydd i Astudio a lle gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu'r cyngor dan sylw fod wedi effeithio ar benderfyniad y panel.
- Amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y panel. Rhaid i'r apelydd egluro pam na chafodd y panel wybod am yr amgylchiadau personol hyn cyn y cyfarfod. Lle byddai wedi bod yn bosibl i fyfyriwr roi gwybod i'r Panel am amgylchiadau eithriadol cyn y cyfarfod, ond na wnaethpwyd hynny, ni all wedyn defnyddio'r rhesymau hynny fel sail dros apelio.

43. Bydd yr Is-ganghellor (neu enwebai) yn ymchwilio i'r pryderon mewn unrhyw fodd sy'n addas er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol a llawn cyn dyfarnu ynglŷn â'r apêl. Rhoddir penderfyniad yr Is-ganghellor fel rheol o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbynnir apêl.

44. Gall yr Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:

- Peidio â chadarnhau'r apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn ysgrifennu at yr apelydd i'w hysbysu y gwrthodwyd yr apêl a bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi eu cwblhau.
- Cadarnhau'r apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn trefnu Panel Addasrwydd i Astudio arall i ystyried yr achos. Mewn achosion o'r fath bydd y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu neu enwebai yn ceisio sicrhau aelodaeth wahanol i'r Panel apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn nodi ar ba sail y cadarnhawyd yr apêl.

45. Mae penderfyniad yr Is-ganghellor yn derfynol.

46. Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwnnw. Os yw'r myfyriwr yn parhau i fod yn anhapus â chanlyniad y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio efallai y gallant ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu'r achos. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch ac am gylch gorchwyl y corff hwnnw yma: https://www-oiahe-org-uk.translate.goog/?_x_tr_sl=en&_x_tr_tl=cy&_x_tr_hl=en-GB

    Bydd angen i fyfyrwyr fod wedi cwblhau pob cam yn y weithdrefn hon cyn cyfeirio'r mater i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch. Mewn achosion o'r fath bydd y Brifysgol yn rhoi llythyr i'r myfyriwr o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'

pan fydd myfyriwr yn cyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd yn fewnol.

Os na chaiff cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig i'r myfyriwr. Hyd yn oed os caiff cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol gall myfyriwr ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan y Brifysgol os dymunant.

I ddod â chwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch, mae angen i fyfyriwr gyflwyno Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch a honno wedi'i chwblhau cyn pen blwyddyn wedi dyddiad penderfyniad terfynol y Brifysgol (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel rheol).

**Camau Disgyblu**

47. Os bydd myfyriwr sy'n cael anawsterau yn torri unrhyw un o reoliadau'r Brifysgol, bydd y tor-rheoliadau hyn yn cael eu hystyried o dan Reoliad 21: Disgyblu Myfyrwyr. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu heithrio fel rheol o ymchwiliad disgyblu oherwydd eu bod yn cael eu hystyried o dan o weithdrefn hon. Ystyrir pob achos yn unigol, gan roi sylw priodol i faterion sy'n gysylltiedig â salwch meddwl. Dylid hysbysu'r Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu neu enwebai os oes angen ystyried achos o dan Reoliad 21.

**Monitro**

48. Cesglir data ar y defnydd o'r weithdrefn hon fel a ganlyn:
    - nifer yr achosion ar bob cam o'r weithdrefn
    - nifer y rhai sy'n gorfod gohirio astudiaethau
    - canlyniadau terfynol e.e. dychwelyd i astudio.

49. Caiff yr holl wybodaeth uchod ei monitro yn ôl coleg ac ysgol, ac yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, oed, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol lle bo'n bosibl, i sicrhau y gweithredir y weithdrefn yn deg ac yn gyson.

50. Bydd y Tîm Cefnogi a Gweinyddu Myfyrwyr yn casglu'r data hwn ac yn mynegi unrhyw faterion sy'n codi'n uniongyrchol gyda cholegau ac ysgolion.

**Atodiad 1**

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

| **Cofnod o bryder am iechyd a lles myfyriwr** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | | |
| Enw'r myfyriwr: | | Rhif adnabod: 500______ |
| Manylion cyswllt: | Cyfeiriad lleol: | |
| | Ffôn: | |
| | E-bost: | |
| Meddyg Teulu'r Myfyriwr:<br>(os yw'n briodol) | | |
| Trafodwyd pryderon gyda:<br>(h.y. aelod staff) | | |
| Amlinelliad byr o'r pryderon: | | |
| Pwyntiau gweithredu a gytunwyd: | | |

| | |
|---|---|
| Unrhyw wybodaeth/sylwadau eraill: | |
| Dyddiad adolygu (os yw'n briodol) | |

**Datganiad:**

Rwy'n deall natur y pryder/pryderon a nodwyd gan y Brifysgol, fel yr eglurwyd i mi ac a amlinellwyd yn y ddogfen hon, a'r effaith/canlyniadau posibl y gallai'r pryder hwn/y pryderon hyn eu cael ar fy addasrwydd i astudio.

Rwyf hefyd yn deall yr effaith y gallai'r pryder hwn/y pryderon hyn ei chael ar y gymuned staff a chyd-fyfyrwyr sy'n gweithio ac yn astudio yn y Brifysgol ac yr wyf yn perthyn iddi.

Rwyf wedi cytuno i weithio tuag at y cynllun gweithredu a amlinellir uchod, ac a ddatblygwyd i'm cefnogi.

Rwy'n deall, os nad wyf yn gallu cyflawni'r cynllun gweithredu, neu'n anfodlon gwneud hynny, bydd rhaid i'r Brifysgol ystyried cymryd camau priodol, yn unol â'm sefyllfa.

Rwy'n deall ac yn cydsynio i wybodaeth am fy addasrwydd i astudio gael ei rhannu â gwasanaethau perthnasol eraill yn y Brifysgol. Felly, caiff copi o'r cynllun gweithredu hwn ei gyflwyno i'r Pennaeth Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr (neu enwebai) a'i ddosbarthu i staff perthnasol lle bo'n briodol.

Er fy mod yn deall bod gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i'm cefnogi, yn y pen draw fi sy'n gyfrifol am fy iechyd a lles fy hun a'm cyfrifoldeb i yw bod yn addas i astudio.

Rwyf hefyd yn llofnodi i gytuno i fynd i gyfarfod adolygu ar yr adeg y cytunwyd arno, er mwyn gweld pa gynnydd rwyf wedi ei wneud.

Enw'r myfyriwr______________________ Llofnod________________________

Aelod staff ______________________ Llofnod________________________

Dyddiad ______________________________ Dyddiad adolygu______________________